Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Felinfoel
Canolfan Integredig
Ysgol Y Felin
Ynyswen
Felinfoel
Llanelli
SA14 8BE

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2015**

**gan**

**Dorothy Morris**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/03/2015**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Felinfoel wedi'i leoli yng Nghanolfan Integredig Plant ar safle Ysgol Y Felin, Felinfoel, Llanelli.  Mae'r plant sy'n mynychu'r lleoliad yn dod o'r dref a'r ardal leol. Mae'r ardal wedi ei harenwi yn ardal Dechrau'n Deg.  Mae'r Ganolfan yn darparu gwasanaethau gofal plant, cymorth i deuluoedd, a gwasanaethau iechyd i blant a'u rhieni.  Mae'r lleoliad yn cwrdd mewn ystafell a adeiladwyd i'r pwrpas.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 24 o blant fesul sesiwn.  Ar hyn o bryd, mae 59 o blant dwy a thair oed ar y gofrestr gydag 20 ohonynt yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu.  Mae ar agor am bum diwrnod yr wythnos rhwng 9.00 a 11.30 y bore a 12.15 a 2.45 y prynhawn yn ystod y tymor ysgol.

Daw y rhan fwyaf o'r plant o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith.  Mae ychydig o blant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig o fewn y garfan bresennol.  Mae ychydig o blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae pum aelod o staff.  Maent yn brofiadol ac yn meddu ar gymwysterau addas ym maes addysg a gofal plant bach.  Mae'r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers 2008.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym Mehefin 2013 a chan Estyn yn Ionawr 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd priodol o'u man cychwyn
- Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu ystod addas o fedrau llythrennedd a rhifedd
- Mae'r addysgu da yn sicrhau mwynhad ac ymrwymiad gweithredol y plant yn eu dysgu
- Mae'r berthynas dda rhwng y plant a'r ymarferwyr yn hybu hyder y plant fel dysgwyr
- Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol y plant
- Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu diddorol
- Mae defnydd pwrpasol o'r ardal ddysgu allanol
- Mae'r lleoliad yn darparu amgylchedd hapus, gofalgar a chynhaliol i'r holl blant

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- Mae'r arweinydd yn darparu cyfeiriad cadarn i waith y lleoliad
- Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol fel tîm
- Mae defnydd adeiladol o fedrau a diddordebau'r ymarferwyr wrth gynllunio profiadau dysgu
- Mae gan yr holl staff agweddau cadarnhaol tuag at ddatblygiad proffesiynol
- Mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth sicr o gryfderau'r lleoliad
- Mae cynlluniau datblygu yn sicrhau gwelliannau
- Mae adnoddau yn cael eu defnyddio'n adeiladol i gefnogi'r dysgu
- Mae partneriaeth fuddiol gyda'r ysgol gynradd, y rhieni a'r gymuned

## Argymhellion

A1 Cryfhau medrau llafar Cymraeg a medrau rhif y plant

A2 Cynllunio gweithgareddau â ffocws i ateb anghenion plant o bob gallu yn gyson

A3 Atgyfnerthu geirfa ac ymadroddion Cymraeg sylfaenol yn fwy rheolaidd yn ystod gweithgareddau

A4 Datblygu rôl strategol y pwyllgor rheoli

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu o'u man cychwyn. Mae eu medrau personol a chymdeithasol yn datblygu'n effeithiol. Mae'r rhan fwyaf yn gyfeillgar a chwrtais i'w gilydd. Maent yn cyd-chwarae a chydweithio'n bwrpasol gyda phlant eraill a'r ymarferwyr ac yn magu hyder i roi cynnig ar brofiadau newydd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando'n dda ac yn ymateb yn gywir i gyfarchion a chyfarwyddiadau. Mae'r mwyafrif yn dangos dealltwriaeth briodol o eiriau Cymraeg cyfarwydd ond ymatebion byr iawn a geir ar lafar. Maent yn gyfarwydd ag ystod o ganeuon syml a hwiangerddi, yn gwybod y geiriau ac yn eu canu'n frwdfrydig. Mae'r plant yn mwynhau edrych ar lyfrau ac mae'r rhan fwyaf yn adnabod eu henwau ar ffurf print. Mae'r mwyafrif yn defnyddio eu medrau marcio yn effeithiol i dynnu lluniau, darlunio storïau a chopïo geiriau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud defnydd priodol o'u medrau rhif sylfaenol mewn gweithgareddau bob dydd. Maent yn cyfrif i ddeg yn gywir ac yn deall gwerth rhif i o leiaf tri. Mae'r mwyafrif yn didoli gwrthrychau yn ôl siâp, maint neu liw yn gywir. Maent yn deall ystyr termau mathemategol, megis mawr a bach, llawn a gwag, un arall, mewn sefyllfaoedd ymarferol. Mae'r rhan fwyaf yn enwi siapau dau ddimensiwn sylfaenol yn gywir. Mae'r mwyafrif yn dechrau deall pwrpas arian yn ystod eu gweithgareddau chwarae rôl.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) cynnar y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n effeithiol. Maent yn gwneud defnydd priodol o'u medrau ymchwiliol a datrys problemau mewn gweithgareddau megis coginio, adeiladu yn yr ardal allanol, a chynhyrchu darluniadau ar gyfer yr arddangosfa i gyflwyno stori'r wythnos. Mae'r mwyafrif yn defnyddio offer torri, peintio a gludo gyda rheolaeth dda.

**Lles: Da**

Mae pob plentyn yn ymgartrefu'n dda ac yn ymgyfarwyddo'n gyflym â gweithdrefnau'r lleoliad. Maent yn symud yn hyderus o fewn yr amgylchedd dan do ac awyr agored.

Mae'r plant yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yng nghwmni'r ymarferwyr ac maent yn barod i ofyn am gymorth. Mae bron bob plentyn yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Mae'r mwyafrif yn hapus i wneud dewisiadau ac yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau am gyfnodau priodol wrth gwblhau tasgau. Maent yn ymddwyn yn dda.

Mae gan y rhan fwyaf o blant ymwybyddiaeth briodol o bwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer y corff. Maent yn cymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu hylendid personol a deallant bwysigrwydd golchi eu dwylo'n rheolaidd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymgymryd â chyfrifoldebau, megis helpwr y dydd a thacluso ar ôl gweithgareddau, yn gydwybodol. Maent yn defnyddio eu medrau cymdeithasol yn effethiol mewn cyd-destunau gwahanol megis cyfrannu at gyngherddau a dathliadau yn y lleoliad ac yn y pentref. Mae eu medrau yn ehangu'n ymhellach drwy ymwneud â digwyddiadau a gynhelir yn y gymuned megis yr Eisteddfod Genedlaethol a gweithgareddau chwaraeon ac adloniant a drefnir gan Mudiad Meithrin ac asiantaethau eraill.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n fanwl i ddarparu profiadau diddorol ar draws y chwe maes dysgu. Mae'r gweithgareddau'n seiliedig ar gyfres o themâu sy'n gweddu i ystod oed a datblygiad y plant. Mae'r holl ymarferwyr yn cael eu cynnwys yn y sesiynau cynllunio sy'n sicrhau'r defnydd gorau o'u medrau a'u diddordebau. Mae cyfleoedd da i'r plant gyfrannu at y cynllunio drwy awgrymu topigau neu weithgareddau. Maent yn cofnodi eu syniadau'n effeithiol ar ffurf lluniau, sy'n cael eu harddangos a'u rhannu gyda'r plant eraill.

Mae darpariaeth briodol i hybu medrau llythrennedd a rhifedd y plant drwy'r profiadau dyddiol. Mae cyfleoedd pwrpasol i blant wrando ar storïau, dysgu llythyren yr wythnos, canu caneuon a rhigymau, a defnyddio eu medrau marcio. Mae defnydd effeithiol o labeli o gwmpas yr ystafell i feithrin dealltwriaeth y plant fod symbolau ysgrifenedig yn cyfleu ystyr. Mae cyfleoedd cynhyrchiol i'r plant gyfrif a thrafod rhifau yn ystod amser cylch ac yn eu chwarae. Ar adegau, fodd bynnag, nid yw'r cynllunio yn rhoi digon o sylw i gryfhau medrau llafar Cymraeg a medrau rhif y plant.

Mae cyfleoedd pwrpasol i'r plant ddefnyddio eu medrau TGCh ac i ddatblygu eu medrau ymchwiliol, creadigol a chorfforol. Maent yn cynnwys profiadau megis chwilio am siapiau a rhifau yn y badell dywod, gosod rhifau mewn trefn ar y lein ddillad, ymchwilio i synau anifeiliaid, arbrofi i weld sut mae iâ yn toddi, a choginio gwahanol fwydydd.

Caiff ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau Cymru ei ddatblygu'n effeithiol trwy weithgareddau pwrpasol sy'n cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen. Mae defnydd addas o ymweliadau ac ymwelwyr i gefnogi'r dysgu. Er enghraifft, mae'r ymweliadau â'r swyddfa bost a'r eglwys yn hybu ymwybyddiaeth y plant o rai o nodweddion eu hardal leol yn briodol.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth gadarn o ddatblygiad plant a'r Cyfnod Sylfaen. Maent yn gwneud defnydd pwrpasol o ystod o ddulliau addysgu, gan gynnwys gwaith ar lefel unigol a grŵp. Caiff y gweithgareddau eu paratoi a'u trefnu'n fanwl. Mae cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plant a gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan yr ymarferwyr. Weithiau, fodd bynnag, nid yw gweithgareddau â ffocws yn ymateb yn llawn i anghenion dysgu plant o ystod

gallu eang.

Mae’r rhaglen o weithgareddau yn symud ar gyflymder da. Mae defnydd effeithiol o’r holl adnoddau dan do ac awyr agored i ddarparu cyfleoedd cyson i’r plant ddysgu trwy chwarae a bod yn weithredol yn eu dysgu.

Mae’r ymarferwyr yn sefydlu perthynas waith agos gyda’r plant sy’n eu hannog i gyfrannu a mwynhau eu dysgu. Maent yn cyfathrebu’n gyson gyda phlant a defnyddiant dechnegau holi effeithiol. Ar adegau, fodd bynnag, nid yw geirfa berthnasol ac ymadroddion Cymraeg yn cael eu hatgyfnerthu yn ddigon rheolaidd yn ystod gweithgareddau.

Mae’r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn ymwybodol o’u datblygiad cyffredinol a’u hanghenion dysgu. Maent yn asesu eu cynnydd yn effeithiol drwy arsylwi a thrafod yn unigol gyda’r plant, gan nodi pethau arwyddocaol. Mae cyfleoedd rheolaidd i’r ymarferwyr rannu’r sylwadau ac i gynllunio’r camau nesaf yn y dysgu. Mae defnydd cynhyrchiol o’r wybodaeth hon i osod targedau unigol i blant.

Caiff rhieni eu hysbysu’n briodol am gynnydd a datblygiad eu plant drwy sgyrsiau anffurfiol a’r cyfleoedd i drafod samplau o’u gwaith. Mae’r ymarferwyr yn darparu adroddiadau ysgrifenedig o ansawdd da i’r rhieni bob hanner tymor.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau cynhwysfawr i gefnogi iechyd a lles y plant sy’n cynnwys gweithredu polisïau angenrheidiol. Mae’r ymarferwyr yn ofalgar a chynhaliol o’r holl blant. Mae cyfleoedd pwrpasol i godi ymwybyddiaeth plant o bwysigrwydd bwyta’n iach ac ymarfer y corff. Mae bod yn rhan o Gynllun Gwên, er enghraifft, yn hybu arferion da o ran gofal dannedd yn llwyddiannus.

Mae profiadau o ansawdd da yn hyrwyddo datblygiad personol y plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn effeithiol. Mae gwerthoedd, megis tegwch a dealltwriaeth o’r hyn sy’n gywir a’r hyn sy’n anghywir, yn cael eu hyrwyddo’n gadarnhaol drwy’r gweithgareddau dyddiol. Mae’r cyfleoedd i ddysgu a chynnig gweddïau a chymryd rhan mewn dathliadau, megis y cynhaeaf a’r Nadolig, yn cyfrannu’n briodol at ddatblygiad ysbrydol a moesol y plant.

Mae cyfleoedd cynhyrchiol i ddatblygu ymwybyddiaeth y plant o’r byd ehangach, gan gynnwys pobl eraill, eu diwylliannau a’u dathliadau. Maent yn cynnwys profi a choginio gwahanol fwydydd sy’n gysylltiedig â gwledydd eraill, a chymryd rhan mewn gweithgareddau megis dathlu’r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a gŵyl Divali.

Mae trefniadau sefydlog a chadarnhaol ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae llinellau cyfathrebu clir gydag asiantaethau allweddol, megis gwasanaethau cefnogi plant a therapyddion lleferydd, yn sicrhau cyngor a chefnogaeth briodol i’r ymarferwyr.

Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Ymgymerir ag asesiadau risg yn briodol.

Mae cyfleoedd buddiol i blant ddysgu am gynaliadwyedd a phwysigrwydd gofalu am bopeth byw. Maent yn cynnwys tyfu planhigion, dysgu am anifeiliaid, a chymryd rhan mewn ystod o weithgareddau ailgylchu a chompostio.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos y lleoliad yn creu awyrgylch croesawgar a hapus i'r holl blant. Mae'n gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn fynediad cyfartal i'r holl brofiadau dysgu. Mae'r ymarferwyr yn ystyried ac yn gwerthfawrogi cefndiroedd amrywiol y plant ac yn gweithredu'n briodol yn unol â'r wybodaeth hon.

Mae'r adeilad yn cynnig cyfleusterau o ansawdd da iawn. Mae'n lan a diogel. Mae'r ardal awyr agored yn cynnwys llecyn chwarae wyneb caled, llecyn gwyrdd ac ardaloedd ymchwil pwrpasol. Mae defnydd effeithiol o'r gofod sydd ar gael trwy drefnu ardaloedd gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth a thu allan. Mae'r arddangosfeydd deniadol o waith y plant yn cefnogi'r dysgu ymhellach.

Mae gan y lleoliad ddigon o adnoddau o ansawdd da ym mhob un o'r ardaloedd dysgu. Maent o fewn cyrraedd y plant sy'n hyrwyddo dysgu annibynnol yn effeithiol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn darparu cyfeiriad cadarn i waith y lleoliad. Mae strwythur clir i'r sesiynau dyddiol. Mae rôl amlwg i bob aelod o staff sy'n adlewyrchu eu medrau a'u diddordebau. Maent yn cynnwys arwain gweithgareddau celf, coginio, adeiladu a sesiynau stori. Mae'r holl ymarferwyr yn rhannu gwerthoedd cytûn ac yn ymrwymedig i ddatblygiad a lles plant. Maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn gweithio'n effeithiol fel tîm. Mae polisïau addas yn cael eu gweithredu'n briodol.

Mae'r pwyllgor rheoli yn dîm bychan ond yn gefnogol i'r lleoliad a'r ymarferwyr. Mae'r aelodau yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn rhoi sylw addas i ofynion cyfredol y lleoliad. Fodd bynnag, nid yw rôl y pwyllgor ym mhrosesau arfarnu a blaengynllunio wedi'i datblygu'n llawn.

Mae prosesau priodol mewn lle ar gyfer gwerthuso gwaith ac adnabod datblygiad proffesiynol pellach yr ymarferwyr. Maent yn cael eu cydlynu'n ofalus gan yr arweinydd.

Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, hybu bwyta'n iach a hyrwyddo medrau Cymraeg y plant.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth dda o gryfderau'r lleoliad ac o'r prif feysydd i'w gwella.  Mae'n arfarnu'r ddarpariaeth yn briodol drwy arsylwi,  dadansoddi cofnodion datblygiad plant a chyd-drafod gyda'r ymarferwyr eraill.  Mae'r cyfarfodydd dyddiol i drafod rhaglen y sesiwn ac i rannu adborth ar y diwedd yn gyfleoedd defnyddiol i arfarnu agweddau ar y ddarpariaeth.  Mae sylw addas yn y fframwaith gynllunio i adnabod y camau nesaf yn y dysgu, er enghraifft  medrau'r plant.  Mae'r sylw i agweddau ar yr addysgu yn elfen sy'n datblygu.

Mae'r ymarferwyr wedi cwblhau adroddiad hunanarfarnu cytbwys yn seiliedig ar adolygiad manwl o'r ddarpariaeth.  Mae ystod o dystiolaeth addas i gefnogi'r casgliadau.  Mae'r cynllun datblygu sy'n deillio o hyn yn cynnwys targedau priodol ar gyfer datblygiad pellach y lleoliad ynghyd ag amserlen a chyfrifoldebau penodol.  Mae gwelliannau i'w gweld mewn agweddau megis cynllunio gweithgareddau a datblygu'r ardal ddysgu allanol.

Mae agweddau ar y ddarpariaeth yn cael eu monitro a'u trafod yn rheolaidd gydag athrawes gyswllt yr awdurdod lleol.  Darperir arweiniad manwl a rhoddir strategaethau pwrpasol ar waith.  Mae gweithrediad polisïau a chanllawiau newydd yn cael eu trafod ymhellach gyda swyddog Mudiad Meithrin.  Mae'r arweinydd yn ceisio barn rhieni yn briodol trwy drafod a thrwy holiaduron.  Mae defnydd adeiladol o'r cyfathrebu gyda staff yr ysgol gynradd ar faterion megis deunyddiau newydd.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae cydweithio adeiladol gydag ystod o bartneriaethau yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad y plant a'u lles.  Mae perthynas dda gyda'r rhieni a darperir gwybodaeth berthnasol iddynt drwy'r hysbysfwrdd, cylchlythyron a'r dyddiau agored a drefnir are eu cyfer.  Mae ymarferwyr ar gael yn rheolaidd i gyfarfod gyda'r rhieni ar ddechrau a diwedd pob sesiwn.

Mae'r berthynas waith adeiladol gyda chadeirydd y pwyllgor rheoli, athrawes gyswllt yr awdurdod lleol a swyddog Mudiad Meithrin yn cyfrannu at ddatblygiad pellach y lleoliad.  Mae partneriaeth lwyddiannus gydag ystod o asiantaethau i gefnogi'r plant a'u rhieni yn ôl y galw.

Mae cysylltiadau cynhyrchiol gyda'r ysgol gynradd leol trwy'r ymweliadau gan y plant, trafodaethau gyda'r staff a'r cyfleoedd i fynychu cyngherddau a digwyddiadau a drefnwyd gan yr ysgol.  Mae'r bartneriaeth hon yn hyrwyddo trosglwyddiad esmwyth i'r plant i gam nesaf eu haddysg.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau buddiol gyda'r gymuned.  Er enghraifft, mae defnydd llwyddiannus o'r cysylltiadau gydag asiantaethau a mudiadau lleol i gefnogi'r gweithgareddau i godi arian i'r lleoliad ac ar gyfer elusennau.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol.  Mae defnydd pwrpasol o amser a phrofiad yr ymarferwyr  yn sicrhau gofal a chynhaliaeth effeithiol i'r plant.  Mae defnydd cynhyrchiol o adnoddau, yr adeilad a'r cyfleusterau i gefnogi'r dysgu a'r addysgu.

Mae'r ymarferwyr wedi mynychu cyrsiau addas ar ystod o agweddau sydd yn ymwneud ag addysg a gofal plant. Gwnânt ddefnydd cadarnhaol o'r hyfforddiant mewn agweddau megis darpariaeth ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r trefniadau ar gyfer datblygiad proffesiynol pellach yn rhoi ystyriaeth dda i anghenion y plant yn ogystal ag anghenion yr ymarferwyr. Mae cefnogaeth effeithiol i'r ymarferwr sydd am ennill cymwysterau ychwanegol ym maes addysg a gofal plant.

Mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth glir o'r gyllideb ac mae'r pwyllgor rheoli yn blaenoriaethu gwariant yn ôl anghenion y lleoliad. Mae arian ychwanegol yn cael ei godi trwy ymdrechion caled yr ymarferwyr, y pwyllgor rheoli, y rhieni a'r gymuned.

O ystyried ansawdd yr arweinyddiaeth, y profiadau dysgu a'r gofal a chymorth i blant, mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

*Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.*

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 21 | 19 | 2 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 21 | 20 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 95% | 5% | 0% | 0% | | |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 21 | 21 | 0 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 86% | 13% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 21 | 20 | 0 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 95% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 21 | 17 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 69% | 27% | 0% | 0% | | |
| Teaching is good. | 21 | 21 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 79% | 18% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 21 | 21 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 82% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 21 | 19 | 2 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 22% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 21 | 21 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 20 | 15 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 24% | 1% | 0% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 20 | 17 | 3 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 30% | 5% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 21 | 20<br>95% | 1<br>5% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo’n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 20 | 16<br>80% | 2<br>10% | 1<br>5% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 62% | 29% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 20 | 17<br>85% | 3<br>15% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 71% | 24% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 21 | 18<br>86% | 3<br>14% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 62% | 30% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol –**

| | |
|---|---|
| Dorothy  Morris | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |